
# Prosbectws

## Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

## 2023 ~ 2024



Agorwyd Ysgol Bro Myrddin yn 1978, yn ysgol ddwyieithog i wasanaethu tref Caerfyrddin a'r cylch. Erbyn hyn mae'n ysgol Categori 3P, a'r unig ysgol uwchradd Gymraeg yn Sir Gâr.  Yn flynyddol mae tua 150 o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7 a  bellach mae tua 950 o ddisgyblion yn rhan o gymuned yr ysgol.  Mae dros 200 o'r disgyblion  hyn yn y Chweched Dosbarth, sydd yn tystio i safonau addysg wych Bro Myrddin.

Annwyl ddarpar rieni a chyfeillion,

Cyflwynaf y copi hwn o brosbectws yr ysgol i chi yn y gobaith y bydd yn gymorth i chi i ddechrau dod i adnabod Bro Myrddin, ein hysgol ni.  Mae'r cam o drosglwyddo o'r sector cynradd i'r uwchradd yn un pwysig a chyffrous i unrhyw ddisgybl, ac rydych chithau fel rhieni yn naturiol yn awyddus i gasglu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl cyn gwneud penderfyniad ynghylch ysgol uwchradd addas i'ch plentyn.

Mae Bro Myrddin yn ysgol lwyddiannus iawn gydag enw da iddi yn y gymuned ac yn genedlaethol. Ymfalchïwn yn ein safonau academaidd uchel a'r bwrlwm o weithgareddau amrywiol sy'n rhan annatod o fywyd yr ysgol.

Nid oes modd i chi, serch hynny, i ddod i wir adnabod yr ysgol trwy ddarllen amdani'n unig. Felly rwy'n eich annog i ymweld â ni pan fo cyfle mewn Noson Agored neu berfformiad cyhoeddus er enghraifft. Siaradwch hefyd â'r bobl hynny sy'n gyfarwydd â'r ysgol, yn ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a chyn-ddisgyblion er mwyn i chi gael darlun cyflawn.

Y sail gadarn i'n llwyddiant yw'r berthynas dda rhwng yr ysgol a chithau fel rhieni. Mae yma gymuned hapus ac awyrgylch o gydweithio er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

Gobeithiaf yn fawr y byddwch chithau a'ch plentyn yn dymuno bod yn rhan o fywyd a gwaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac y bydd eich plentyn, maes o law, yn ymuno â ni.

Yn gywir,

Dr Llinos Jones
*Pennaeth*




**Pennaeth**: Dr Llinos Jones B.A. PhD.
**Dirprwy Bennaeth**: Mr Euryn Madoc Jones, B.A.
**Penaethiaid Cynorthwyol:** Mrs Rhian Carruthers, B.Sc.
Mr Steffan Davies, B.A. MEd
Mrs Eirlys Thomas, B.A
**Bwrsar**: Mrs Eleri MacRae B.A.
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**: Mrs Luned Thomas
**E-bost**: swyddfa@bromyrddin.org
**Ffôn**: 01267 234829

# Nod yr Ysgol

Fel ysgol fro, y mae Bro Myrddin yn cynnig addysg sy'n ceisio ateb anghenion yr unigolyn mewn awyrgylch cefnogol a hollol Gymreig. Cynigir yr un cyfle cyfartal i bob disgybl ddatblygu hyd eithaf ei allu yn academaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn feddyliol ac yn gorfforol.

## Amcanion

- Creu cymdeithas fyw lle y gwerthfawrogir gwerthoedd moesol ac ysbrydol a lle y pwysleisir rhinweddau megis cyfiawnder, gonestrwydd, ymddiriedaeth, goddefgarwch ac ymdeimlad o ddyletswydd.
- Rhoi cyfle i bob disgybl feistroli'r grefft o gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, gan bwysleisio'r Gymraeg fel iaith naturiol yr ysgol.
- Cynorthwyo'r disgybl i ddatblygu sgiliau ar gyfer byd gwaith a fydd yn ei alluogi i weithio fel aelod o dîm ac yn annibynnol.
- Paratoi pob disgybl i fyw fel aelod cyfrifol a gwerthfawr o'r gymdeithas, i ddatblygu perthynas gadarnhaol gydag eraill ac i ddatblygu hunan-barch a pharch at bobl, eiddo a'r amgylchedd.
- Cynorthwyo'r disgybl i werthfawrogi treftadaeth a diwylliant Cymru ac i fedru cyfrannu at gymdeithas amlieithog yng Nghymru, Ewrop a'r byd.
- Sicrhau cyfleoedd priodol i holl aelodau staff yr ysgol i ddatblygu'n broffesiynol.
- Wrth geisio gwireddu'r uchod, pwysleisir y bartneriaeth a'r cydweithio angenrheidiol rhwng disgyblion, aelodau o staff, rhieni a llywodraethwyr.

# Gweledigaeth yr Ysgol

Yng nghynefin ein hysgol ni, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, mae gwreiddiau hen, hen dderwen. Dychmygwn ein cwricwlwm newydd fel y dderwen hon, ac o'i gwreiddiau cadarn, awn ati gyda'n gilydd i feithrin canghennau lle bydd nyth i bob disgybl a lle diogel i fagu adenydd.
Byddwn yn annog ein gilydd

❖ i dyfu'n unigolion iach a hyderus
❖ i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
❖ i gyfrannu'n fentrus a chreadigol i Gymru a'r byd
❖ i gynhyrchu dinasyddion moesol, gwybodus ac egwyddorol a fydd yn aelodau gwerthfawr cymdeithas

Bydd ein cwricwlwm, fel y dderwen, yn eang ac yn gytbwys. Bydd yn cynnig cyfle i ni gysgodi ac i ddringo. Bydd yn ein hysgogi i ymfalchïo yng ngwerthoedd gorau ein hardal, gan ymestyn o'r lleol, i'r cenedlaethol a'r rhyngwladol. Bydd yn rhoi tân yn ein boliau a'r Gymraeg ar ein tafodau. Bydd yn cynnwys pawb, boed yn ddysgwyr, staff, rhieni, llywodraethwyr neu'n aelodau o'r gymuned ehangach.

Drwy bob tymor, bydd yn ein hatgoffa bod derwen yn dod o fesen fach a bod angen plannu o'r newydd o dro i dro. Yn ei holl amrywiaeth, bydd yn ein rhyfeddu.

# Trosglwyddo i Ysgol Bro Myrddin ym Mlwyddyn 7

## Mynediad i Fro Myrddin

O dan amgylchiadau arferol mae mynediad i Fro Myrddin yn agored i unrhyw ddisgybl 11+ oed sy'n byw o fewn talgylch yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu Polisi Cyfle Cyfartal a gellir cael copi cyflawn o'r polisi wrth gysylltu gydag ysgrifenyddes y Pennaeth yn yr ysgol.

Er mwyn hwyluso'r symud o'r ysgol gynradd i Fro Myrddin lluniwyd rhaglen drosglwyddo ofalus gyda'r pwyslais ar ateb anghenion y disgyblion mewn cyfnod a all fod yn frawychus:

- **Ebrill / Mai:** Ymweliadau i ysgolion cynradd gan Bennaeth Blwyddyn 7, Y Pennaeth neu aelodau o'r Uwch Dîm Arwain
- **Mehefin**: Diwrnod ymweld i ddisgyblion Blwyddyn 5.
- **Gorffennaf**: Diwrnodau ymweld i ddisgyblion Blwyddyn 6.
- **Gorffennaf**: Cyfarfod rhieni Newydd
- **Medi**: Ymweliad â Gwersyll yr Urdd, Llangrannog

## Trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion anabl

Mae'r adeilad wedi'i gynllunio yn gwbl addas ar gyfer plant ag anableddau. Mae gan yr ysgol bolisi sy'n diogelu disgyblion gydag anableddau a gellir cael copi cyflawn o'r polisi wrth gysylltu gydag ysgrifenyddes y Pennaeth yn yr ysgol.

## Cludiant

Trefnir cludiant rhad i bob disgybl o fewn talgylch swyddogol yr ysgol yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol. Ar ddiwedd y dydd, mae'r bysiau yn gadael yr ysgol am 3.35 y prynhawn o dan arolygaeth staff yr ysgol. Os digwydd i ddisgybl golli'r bws adref, dylai fynd i Swyddfa'r Ysgol lle gwneir pob ymdrech i gysylltu â rhieni ac i drefnu cludiant diogel iddo/iddi.

## Casglu disgyblion ar ddiwedd y dydd

Er diogelwch pawb ar safle'r ysgol, gofynnwn yn garedig i chi i **beidio â dod mewn i'r safle tan ar ôl 3:45 o'r gloch ac i ddilyn y system un ffordd.**

## Cysylltu â'r Ysgol

Mae cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol bwysig i ddatblygiad a lles pob disgybl. ***Mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod problemau sy'n codi gan ofyn am y Pennaeth Blwyddyn neu, mewn achosion dwys, aelod o'r Uwch Dîm Arwain neu'r Pennaeth.*** Mae gan yr ysgol Gytundeb Ysgol/Cartref, a ddosberthir yn flynyddol i'r rhieni, sydd yn nodi rheolau pwysig megis y defnydd o ffonau symudol, gwefannau cymdeithasol a gwisg ysgol.

Mae gwefan yr ysgol yn ffordd hwylus i rieni ddarganfod pob math o wybodaeth am yr ysgol megis calendr digwyddiadau, newyddion diweddar a dogfennau. Yn ogystal, mae gan yr ysgol gyfrif Twitter a Facebook sydd yn hysbysu rhieni am ddigwyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn ysgol.

# Trefn Y Dydd ym Mro Myrddin

Cynhelir gwasanaethau boreol sydd yn Gristnogol eu sylfaen ac yn foesol ac ysbrydol eu pwyslais.

Mae gan riant yr hawl i eithrio ei blentyn o'r gwasanaeth trwy gyfeirio llythyr at y Pennaeth.

Nid yw'r disgyblion yn cael gadael y safle yn ystod y dydd i brynu bwyd. Ceir dewis eang o fwydydd ar gyfer cinio yn y Ffreutur a Blas tu fas am gost o tua £3.00. Yn ogystal gall y disgyblion sydd olaf i ginio brynu brecwast amser egwyl yn Blas tu fas. Yn ystod yr awr ginio cynigir amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol.

**Trefn y Diwrnod Ysgol**

| | |
|---|---|
| **8:55 – 9:05** | **Cofrestru** |
| **9:05 – 9:20** | **Gwasanaeth Ysgol** |
| **9:20 – 10:20** | **Gwers 1** |
| **10:20 – 10:35** | **Egwyl** |
| **10:35 – 11:35** | **Gwers 2** |
| **11:35 – 12:35** | **Gwers 3** |
| **12:35 – 1:35** | **Cinio** |
| **1:35 – 2:35** | **Gwers 4** |
| **2:35 – 3:35** | **Gwers 5** |

**Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwers y dydd dros gyfnod o 10 diwrnod**

## Tymhorau a gwyliau ysgol – blwyddyn academaidd 2023-2024

| Tymor | Dechrau'r tymor | Dechrau'r gwyliau | Diwedd y gwyliau | Diwedd tymor |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref 2023** | Dydd Llun 4ydd Medi | Dydd Llun 30ain Hydref | Dydd Gwener 3ydd Tachwedd | Dydd Gwener 22ain Rhagfyr |
| **Gwanwyn 2024** | Dydd Llun 8fed Ionawr | Dydd Llun 12fed Chwefror | Dydd Gwener 16eg Chwefror | Dydd Gwener 22ain Mawrth |
| **Haf 2024** | Dydd Llun 8fed Ebrill | Dydd Llun 29ain Mai | Dydd Gwener 31ain Mai | Dydd Gwener 19eg Gorffennaf |

O.N. HMS – 1af Medi 2023
Gwener y Groglith – 29ain Mawrth 2024
Gŵyl Fai – 6ed Mai 2024

***Fe fydd 5 diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd i athrawon yn ystod y flwyddyn a rhennir y dyddiadau gyda chi cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.***

# Cyfrwng Iaith

## Cyfrwng Dysgu ac Addysgu

Mae Bro Myrddin yn ysgol Categori 3P, sef ysgol benodedig Gymraeg. Felly addysgir ac asesir yr holl bynciau heblaw am Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig o Flwyddyn 7 ac i bob blwyddyn sydd yn dilyn.

## Termau a Geirfa Ddwyieithog

Yn CA3 mewn gwersi Gwyddoniaeth a Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a rhaglenni TG cyfrwng Saesneg, yn ogystal â’r Gymraeg, yn rheolaidd, i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Sicrha hynny bod disgyblion yn ei gweld hi’n hawdd addasu i gyd-destun gwyddonol a mathemategol cyfrwng Saesneg wedi gadael yr ysgol.







## Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a’r gwersi academaidd oni bai am Saesneg. Mae'r ysgol yn falch o’i hethos Gymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Rydym yn disgwyl i ddisgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy’n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a’u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur.

# Gwisg Ysgol a Gwisg Ymarfer Corff

Mae Ysgol Bro Myrddin yn ymfalchïo mewn safon gwisg ein disgyblion. Gofynnwn i chi, fel rhieni, i'n cefnogi i gynnal y safonau uchel hyn trwy sicrhau eich bod yn prynu gwisg ysgol i'ch plentyn sydd yn cydymffurfio yn llawn gyda rheolau gwisg yr ysgol ac yn ogystal i annog eich plentyn i barchu ac i ddilyn y rheolau hyn bob amser. Yr eitemau isod yw'r unig rai sy'n dderbyniol i'r ysgol. Rhaid gosod enw ar holl eiddo'r plentyn.

## Gwisg Ysgol

- Sgert ddu blaen steil 'A', hyd y benglin (neu o leiaf 18 modfedd o hyd) gyda phoced a zip a phlet yn y cefn. Ni chaniateir sgertiau byr, tynn mewn ffabrig ymestyn *(stretchy material)*
- Trowsus du, steil clasurol. **DIM JÎNS DU NA THROWSUS FLARES NEU FFIT DENAU**
- Blows / crys lelog swyddogol – llewys hir neu fyr, steil rheolaidd neu wedi'i ffitio
- Tei swyddogol yr ysgol
- Siwmper swyddogol yr ysgol – gwddf V blaen gyda bathodyn yr ysgol wedi ei wnïo i mewn
- Teits trwchus du gyda sgert. Sanau hyd y bigwrn du / gwyn yn yr Haf yn unig (opsiynol)
- Sanau du / gwyn gyda throwsus
- Esgidiau lledr du plaen – ni chaniateir esgidiau ymarfer *(trainers)* nac esgidiau cynfas
- Cot o liw tywyll ar gyfer gwisgo tu allan
- Ffedog ar gyfer gwers technoleg

## Gwisg Ymarfer Corff

**Rhaid i holl eitemau gwisg ymarfer corff eich plentyn fod yn wisg swyddogol yr ysgol.**

- Skort ddu neu siorts ysgafn (ni chaniateir siorts lycra tynn a byr iawn);
- Siorts rygbi;
- Crys chwaraeon gyda streipen lelog;
- Crys-T gyda streipen lelog;
- Sanau chwaraeon;
- Legins ¾ (opsiynol);
- Crys chwys (opsiynol);
- Cot law (opsiynol);
- Esgidiau ymarfer *(trainers)*;
- Esgidiau hoci/pêl-droed/rygbi;
- Padiau crimog;
- Gorchudd dannedd.

Bydd disgwyl i ddisgyblion newid i wisg Ymarfer Corff/Chwaraeon bob gwers onibai bod ganddynt lythyr i'w hesgusodi o weithgareddau'r wers oherwydd rhesymau meddygol.



**TLYSAU –** Ni chaniateir tlysau megis modrwyon, breichledau, cadwyni braich, tsaen. O ran clustdlysau caniateir un clustdlws bach aur/arian ym mhob clust. Awgrymwn y dylid tyllu clustiau ar ddechrau gwyliau'r haf yn unig. Rhaid tynnu'r clustdlysau ar gyfer gwersi chwaraeon ac ymarfer corff. Anodd gwneud hyn os yw'r clustiau newydd eu tyllu. Nid oes hawl gan ddisgybl wisgo stydiau mewn unrhyw dyllиadau *(piercings)* eraill. Mae gan aelodau staff yr hawl i ofyn i ddisgybl gael gwared ar y rhain os bydd yn torri'r rheol.

**GWALLT** – Ni chaniateir arddulliau gwallt eithafol gan gynnwys eillio rhannau o'r pen neu batrymau i mewn i'r gwallt/aeliau. Dylai lliw y gwallt fod yn naturiol ac unrhyw liwio gwallt i gyd-fynd â'r naturiol hynny. Dylai unrhyw addurn gwallt gydymffurfio â lliwiau'r ysgol sef lelog, llwyd neu ddu.

# Trefniadau Cwricwlwm

## Cyfnod Allweddol 3

### Dosbarthiadau Blwyddyn 7

Ym Mlwyddyn 7 sefydlir pum dosbarth cofrestru gallu cymysg. Wrth drefnu'r dosbarthiadau cofrestru hyn, dealla'r ysgol ddymuniad disgyblion i gael eu gosod mewn dosbarth gyda'u cylch ffrindiau ac fe fydd y Pennaeth Blwyddyn yn ceisio ymateb i'r ceisiadau hynny. Er hyn, rhaid i rieni a disgyblion fod yn ymwybodol na fydd hyn yn bosibl ar bob achlysur yn enwedig wrth ystyried agweddau addysgiadol, megis y galw am gymorth addysgol ychwanegol â'r nifer o ddisgyblion yn y flwyddyn honno. Ar adegau yn ystod y flwyddyn caiff dosbarthiadau cofrestru eu cymysgu ar gyfer rhai pynciau.

### Dosbarthiadau Blwyddyn 8 a 9

Ym Mlwyddyn 8 a 9, bydd adrannau yn dosbarthu'r disgyblion mewn grwpiau dysgu yn ôl polisi'r adrannau unigol.

### Dulliau Addysgu

Mae amrywiaeth eang o ddulliau addysgu yn cael eu defnyddio yn ôl anghenion pwnc a'r grŵp dysgu penodol. Ceir defnydd o waith ymchwil, llafar, gwrando, technoleg gwybodaeth ac wrth gwrs gwaith ymarferol gyda'r athrawon yn symud o ddysgu dosbarth cyfan i drefnu gwaith grŵp ar lefelau gwahanol a rhoi sylw i unigolion o alluoedd amrywiol.

### Pynciau Astudio

Mae pob disgybl yn astudio pynciau yn y 6 Maes Dysgu a Phrofiad:

- Celfyddydau Mynegiannol: Celf, Cerdd, Drama
- Mathemateg a Rhifedd
- Dyniaethau: Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cymraeg, Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg a Sbaeneg), Saesneg
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth
- Iechyd a Lles: Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Gorfforol, Iechyd a Lles, Addysg Ariannol

Mae un wers y pythefnos yn cael ei neilltuo ar gyfer cwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

O fewn y pynciau hefyd mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau mewn cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gweithio gydag eraill, datrys problemau a gwella dysgu a pherfformiad. Hefyd gwneir defnydd o dechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm er mwyn hybu sgiliau digidol y disgybl. Mae pwyslais ar ddatblygu'r medrau yn ganolbwynt i ddysgu yng Nghyfnod Allweddol 3.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Darperir addysg arbennig ar gyfer disgyblion sydd yn cael trafferth gyda'r elfennau sylfaenol o lythrennedd a rhifedd. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynir gan swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, Mr Dyfed James, yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer disgyblion yn cael ei adolygu'n flynyddol mewn cyfarfod a fynychir gan ddisgyblion, rhieni, a gwasanaethau cymorth sirol perthnasol.













## Cyfnod Allweddol 4

Bydd pob disgybl ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn astudio ar gyfer cymhwyster gorfodol, ar lefel briodol i'w gallu, yn y pynciau canlynol:

- Bagloriaeth Cymru
- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth.

Yn ogystal, mae pob disgybl yn dilyn cyrsiau di-arholiad mewn:

- Addysg Gorfforol
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol sydd yn cynnwys addysg iechyd, addysg rhyw, gyrfaoedd a phrofiad gwaith. Mae'r cwrs addysg iechyd yn cynnwys gwersi ar barch a pherthynas, cenhedlu ac atal cenhedlu, a chlefydau rhyw-gysylltiol ac AIDS, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae gwersi ABCh yn gyfuniad o'r rhai a arweinir gan arbenigwyr iechyd ac athrawon profiadol.
- Addysg Grefyddol

### Pynciau opsiwn

Ar hyn o bryd ar ddiwedd Blwyddyn 9 mae disgyblion yn dewis tri phwnc opsiwn ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11. Gwahoddir disgyblion a rhieni i ddod i Noson Opsiynau a drefnir gan yr ysgol. Mae'r un ystod lawn o opsiynau ar gael i fechgyn a merched. Mae'r pynciau opsiwn canlynol ar gael i ddisgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 9.

| | |
|---|---|
| **Addysg Gorfforol** | **Dylunio a Thechnoleg** |
| **Addysg Grefyddol** | **Ffrangeg** |
| **Adeiladwaith** | **Gwyddoniaeth Triphlyg** |
| **Amaethyddiaeth** | **Hanes** |
| **Busnes** | **Iechyd a Gofal** |
| **Bwyd a Maeth** | **Peirianneg** |
| **Celf a Dylunio** | **Peirianneg Ceir** |
| **Cerdd** | **Sbaeneg** |
| **Daearyddiaeth** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| **Drama** | **Trin Gwallt a Harddwch** |
| | **Twristiaeth** |

Yn ogystal â datblygu eu dealltwriaeth bynciol, mae gan ddisgyblion gyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol, cymdeithasol a rhai ar gyfer byd gwaith yn eu meysydd astudio.

## Cyfnod Allweddol 5

Bydd y disgyblion sydd yn dychwelyd i'r Chweched Dosbarth yn astudio Bagloriaeth Cymru yn ogystal ag o leiaf tri phwnc opsiwn. Mae mynediad i Flwyddyn 12 yn agored i unrhyw ddisgybl sydd wedi cwblhau rhaglen astudio Lefel 2 ym Mlwyddyn 11; disgwylir bod ganddynt radd C neu uwch mewn Mathemateg, Saesneg Iaith neu Cymraeg Iaith ac o leiaf tri phwnc arall i symud ymlaen i astudio cyrsiau Safon Uwch. Mewn ymateb i ofynion anghenion dysgu ychwanegol rhai unigolion mae'r ysgol yn barod i ystyried trefnu cyrsiau priodol ar lefel is na'r cyffredin yn y Chweched Dosbarth.

Wrth ddewis pynciau ar gyfer eu llwybr dysgu personol, gall myfyrwyr ddewis llwybr academaidd neu lwybr galwedigaethol neu gyfuniad o'r ddau. Mae gan yr ysgol fwydlen eang o bynciau y gellir eu dewis ar gyfer eu hastudio yn y Chweched Dosbarth.

| | | |
|---|---|---|
| Addysg Gorfforol | Drama | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Addysg Grefyddol | Dylunio a Thechnoleg | Mathemateg |
| Astudiaethau Busnes | Electroneg | Mathemateg Bellach |
| Bioleg | Ffrangeg | Peirianneg |
| Bwyd a Maeth | Gofal Plant | Saesneg Llenyddiaeth |
| Celf a Dylunio | Gwasanaethau Cyhoeddus | Sbaeneg |
| Cemeg | Gwleidyddiaeth | Technoleg Gwybodaeth |
| Cerddoriaeth | Gwyddor Meddygol | Troseddeg |
| Cymraeg | Hanes | Twristiaeth |
| Daearyddiaeth | | |

Mae Ysgol Bro Myrddin yn aelod o'r Bartneriaeth Addysg Gymraeg, lle cynigir cyrsiau mewn partneriaeth ag ysgolion Maes Y Gwendraeth ac Y Strade a dysgir hwy trwy ddefnyddio dulliau dysgu cyfunol. Y cyrsiau hynny yw Busnes, Electroneg, Ffrangeg, Gofal Plant, Gwleidyddiaeth, Bwyd a Maeth, Peirianneg, Troseddeg, Twristiaeth a Sbaeneg.

## Dewis y Llwybr Dysgu Cywir

Trefnir Noson Opsiynau ar gyfer Blwyddyn 11 sydd yn rhoi cyfle i ddisgyblion a'u rhieni ystyried y ffordd ymlaen. Gwneir y dewis terfynol o gyrsiau opsiwn mewn trafodaeth unigol rhwng y myfyriwr, y Pennaeth, aelod o'r Uwch Dîm Arwain neu'r Pennaeth Blwyddyn yn y cyfnod ar ôl cyhoeddi canlyniadau TGAU. Trefnir Rhaglen Gyflwyno fanwl ar ddechrau Blwyddyn 12, er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i ddewis cyfuniad o astudiaethau addas i'w gallu a'u diddordeb. Mae'r rhaglen gyflwyno yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau astudio, rheolau a disgwyliadau'r Chweched Dosbarth.

## Elfennau Rhaglen y Chweched Dosbarth

Mae pob myfyriwr Chweched Dosbarth yn dilyn y rhaglen ganlynol o weithgareddau:

- Ymsefydlu a datblygu'n ddysgwr annibynnol;
- Profiad Gwaith yn ystod Blwyddyn 12;
- Gwaith gwirfoddol fel rhan o astudiaethau Bagloriaeth Cymru;
- Siaradwyr gwadd ar Ddiwylliant a Chymreictod, Diogelwch y Ffordd ac Iechyd Corfforol a Meddwl;
- Paratoi ar gyfer addysg uwch, addysg bellach neu fyd gwaith.

# Cyrchfannau Disgyblion ôl 16

**Cyrsiau Gradd**

**Prifysgol Abertawe**
Peirianneg Mecanyddol, Peirianneg Awyrofod, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwyddorau Feddygol Cymhwysol, Cyfrifeg a Chyllid, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Nyrsio, Cyllid

**Prifysgol Aberystwyth**
Mathemateg, Cymraeg a Hanes Cymru, Rheolaeth Busnes, Hanes, Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, Hanes, Criminoleg a Seicoleg

**Prifysgol Birmingham**
Ffiseg, Saesneg

**Prifysgol Bangor**
Cymraeg

**Prifysgol Caerdydd**
Therapi Galwdigaethol, Cerdd, Cymraeg a Cherdd, Fferylleg, Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, Bancio a Chyllid, Mathemateg Cyllidol

**Prifysgol Durham**
Ieithoedd Modern a Diwylliant

**Prifysgol Loughborough**
Peirianneg Sifil

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**
Addysg Gynradd, Datblygiad Chwaraeon, Cyfrifiaduron, Rheolaeth Busnes, Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer, Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon, Gwyddoniaeth Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

**Harper Adams**
Technoleg Bwyd, Amaethyddiaeth gyda Rheolaeth Busnes

**Prifysgol Bath**
Ffiseg

**Prifysgol Manceinion**
Gwyddorau Biofeddygol

**Prifysgol Rhydychen**
Meddygaeth

**Prifysgol St Andrews**
Cysylltiadau Rhyngwladol

**BUWE**
Gwyddoniaeth Fforensig

**Prifysgol Sussex**
Saesneg a Hanes Celf

**Prifysgol Y Drindod Dewi Sant**
Iechyd ac Astudiaethau Nyrsio, Addysg Blynyddoedd Cynnar, Perfformio

**University of South Wales**
Nyrsio Plant

**Prifysgol Lancaster**
PPE

**Coleg Sir Gâr**
Peirianneg Amaethyddol, Celf

| Disgyblion Bl11 a Bl12 | Blwyddyn 11 (2021 – 2022) | | Blwyddyn 12 (2021 – 2022) | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Aros yn yr ysgol hon | 91 | 69 % | 96 | 95% |
| Symud at ysgol arall | 5 | 3 % | 1 | 1% |
| Addysg Bellach | 33 | 25 % | 2 | 2% |
| Byd gwaith | 2 | 2% | 1 | 1% |
| Hyfforddiant gan gynnwys prentisaeth | 1 | 1% | 1 | 1% |
| Arall (anhysbys) | 0 | 0% | 0 | 0 % |

| Disgyblion Bl13 | Blwyddyn 13 (2021 – 2022) | |
|---|---|---|
| | Nifer | Canran |
| Cwrs Addysg Uwch | 69 | 78% |
| Cwrs Addysg Bellach | 5 | 6% |
| Byd gwaith | 9 | 10% |
| Blwyddyn gap | 3 | 3% |
| Dychwelyd i'r ysgol | 0 | 0% |
| Prentisiaeth | 2 | 3% |

## Gyrfâu a’r Byd Gwaith

Mae disgyblion yn cael gwersi Gyrfaoedd a gweithgareddau yn ymwneud â’r Byd Gwaith o Flwyddyn 8 i Flwyddyn 13. Mae’r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig trwy gyfrwng gwersi ABCh yn ogystal â diwrnodau arbennig lle mae cwricwlwm arferol y disgyblion yn cael ei atal. Mae’r ysgol wedi ei hachredu gyda Marc Ansawdd Gyrfa Cymru sydd yn tystio bod y ddarpariaeth Gyrfaoedd a’r Byd Gwaith o safon arbennig.

Mae’r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda’r Egin trwy'r cynllun Partner Gwerthfawr Ysgolion sy'n cael ei gydlynu gan Gyrfa Cymru. Fe fydd yr ysgol a’r Egin yn cydweithio ar sawl agwedd ond y prif ffocws fydd codi ymwybyddiaeth o’r swyddi a’r gyrfaoedd sydd i’w gael yn sector y cyfryngau ynghyd ag ystod o gyfleoedd cyffrous eraill yn y maes.

Mae'r egwyddor o fenter yn cael ei hyrwyddo trwy gydol y Cyfnodau Allweddol. Ym Mlwyddyn 9 mae disgyblion yn cyflawni gweithgareddau Menter drwy gystadlu yng Nghystadleuaeth Her Tasty Careers a drefnir ar y cyd gan Gyrfa Cymru a Chastell Hywel. Yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5 mae pob disgybl yn cwblhau modiwl Menter y Fagloriaeth ac yn mynychu lleoliad Profiad Gwaith. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd helaeth o Syniadau Mawr Cymru sy'n darparu entrepreneuriaid lleol i siarad gyda'r disgyblion mewn ffordd ysbrydoledig am eu profiadau fel cyflogwyr ac yn annog ein disgyblion i ystyried mentergarwch. Mae Cynadleddau Gyrfau, boed Skills Cymru neu Cynhadledd Gyrfau Cyngor Sir Gaerfyrddin, hefyd yn gyfleoedd i hyrwyddo'r egwyddor o fenter ac mae'r ysgol yn mynychu'r rhain yn rheolaidd.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o’r holl adnoddau ar safwe www.gyrfacymru.com. O amgylch eu profiad gwaith ym Mlwyddyn 10, fe drefnir Cynadleddau Byd Gwaith i’r disgyblion lle mae siaradwyr STEM ac ystod o gyflogwyr lleol yn chwarae rôl flaenllaw. Trefnir ffug-gyfweliadau i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae’r ysgol hefyd yn ymweld yn rheolaidd gyda chynadleddau penodol; megis Cynhadledd Diwydiannau’r Tir yng Ngholeg Sir Gâr a’r Gynhadledd Swyddi o fewn y Gwasanaeth Iechyd ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda.

Yn nhymor yr haf, rhoddir cyfle i ddisgyblion ym mlynyddoedd 10 a 12 fynd i leoliad profiad gwaith. Trefnir y lleoliadau hyn gyda chefnogaeth Cydlynydd Gyrfaoedd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ymgynghorydd Gyrfa Cymru ar y safle yn wythnosol sy’n cynnal cyfweliadau unigol gyda disgyblion penodol ar amseroedd priodol yn eu bywyd ysgol.







# Monitro ac Adrodd ar Gynnydd Disgyblion

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi o asesu parhaus, ynghyd â chyfres o brofion ac arholiadau ffurfiol.

## Adroddiadau Ysgol

Mae’r ysgol yn darparu adroddiad llawn o gyraeddiadau disgyblion yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Llawn yn cynnwys sylwadau manwl ar bob pwnc gan gynnwys canlyniadau arholiadau ysgol.

Gosodir hefyd dargedau dysgu clir a phwrpasol gan yr athro pwnc, er mwyn hybu cynnydd y disgybl. Ar ddiwedd Blwyddyn 9, ceir lefelau cyrhaeddiad y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae’r rhiant yn medru dewis iaith adroddiad y plentyn ond anogir bob teulu, os oes un siaradwr Cymraeg yn y cartref i gael adroddiad Cymraeg.

## Nosweithiau Rhieni

Ceir Noson Rieni ar gyfer pob blwyddyn lle mae modd trafod cynnydd eich plentyn yn fanwl gyda'r athrawon pwnc sy'n eu dysgu.

Cynhelir y Nosweithiau Rhieni fel arfer ar nos Iau rhwng 4:00 a 6:30yh. Nodir y dyddiadau ar galendr yr ysgol ac hysbysir y rhieni am y dyddiadau trwy lythyr a neges destun yn agosach at y dyddiad.

## Polisi Gwaith Cartref

Mae gwaith cartref yn rhan bwysig o gwrs addysg pob adran yn yr ysgol ac yn orfodol i bob disgybl.

Mae'r Trefnydd Personol yn ddolen gyswllt bwysig iawn rhwng yr ysgol a rhieni. Disgwylir i'r Trefnydd gael ei lofnodi gan athrawon dosbarth ac yn wythnosol gan rieni.

## Disgyblion Mwy Abl a Dawnus

Mae gan yr ysgol strategaethau priodol yn ei lle i nodi a datblygu'r disgyblion hynny sy'n fwy abl a dawnus.

Gall rhieni sy'n dymuno gweld y Polisi a'r Cynllun Gweithredu gysylltu ag ysgrifenyddes y Pennaeth i ofyn am gopi.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn rhaglen gweithgareddau Rhwydwaith Seren; menter gan Lywodraeth Cymru yw hon, sy'n cefnogi disgyblion mwyaf abl yr ysgol i gyflawni eu potensial academaidd ac ennill lle ym mhrifysgolion gorau'r DU. Mae cyfleoedd hefyd i ddisgyblion CA3 a CA4 mwyaf abl a dawnus elwa o'r rhaglen.



## Targedau

Yn ystod hanner tymor yr Hydref bydd pob disgybl ym mlynyddoedd 10 i 13 yn derbyn **targedau** unigol ar gyfer yr holl bynciau byddant yn eu hastudio. Bydd y targedau yma yn ymddangos mewn ffurf graddau TGAU / Lefel A. Mae'r targedau yn uchelgeisiol ac yn seiliedig ar y radd y gall y disgybl ei gyrraedd yn y pwnc o dan yr amodau gorau ar ddiwedd blwyddyn 11 neu ar ddiwedd blwyddyn 13.




## Monitro Cynnydd

Ar dair achlysur yn ystod y flwyddyn fe fydd athrawon pynciau yn dyfarnu '**Gradd Cynnydd**' ar gyfer y disgybl, sef y radd y mae'r athro yn ei dybio y bydd y disgybl yn ei chyrraedd erbyn diwedd blwyddyn 11 neu ddiwedd blwyddyn 13 ar sail

a) Agwedd y disgybl at waith ar y pryd hynny
b) Safon gwaith y disgybl pryd hynny

Os ydy disgybl yn tangyflawni fe fydd yr athro a'r adran yn gweithredu i wella perfformiad trwy ddilyn Polisi Cefnogi'r ysgol a gwneud defnydd o strategaethau adrannol i wella perfformiad.
Yn ogystal, os bydd disgybl yn tangyflawni mewn 4 pwnc fe fydd Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu gyda rhieni i drafod y ffordd ymlaen.



## Cefnogaeth Rhieni

Gofynnir i rieni gydweithio gyda'r ysgol er mwyn cynorthwyo a chefnogi eich plentyn gyda'r gwaith. Gellir gwneud hyn trwy:

- drafod gwaith ysgol gyda'r plentyn;
- sicrhau bod y plentyn yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd;
- darllen sylwadau athrawon yn y llyfrau pwnc;
- gadw golwg ar drefnydd personol y plentyn a'i arwyddo'n wythnosol;
- holi am wybodaeth bellach yn ystod noson rhieni.



# Trefniadau Iechyd a Lles

## Gofal Bugeiliol

Mae Bro Myrddin yn ymwybodol o bwysigrwydd cefnogi lles meddyliol a chorfforol disgyblion tra yn yr ysgol, yn ogystal a darparu addysg o safon uchel. Mae'r trefniadau bugeiliol yn bennaf yn nwylo’r Penaethiaid Blwyddyn mewn cydweithrediad agos gyda Mr Steffan Davies, Pennaeth Cynorthwyol. Trwy gysylltu'n agos â'r athrawon dosbarth a phwnc mae modd cadw golwg agos ar anghenion a lles pob disgybl. Cysylltir â rhieni yn uniongyrchol os oes problemau'n codi.

## Swyddog Presenoldeb, Iechyd a Lles

Mae gan yr ysgol Swyddog Presenoldeb, Iechyd a Lles sydd ar y safle yn ddyddiol. Mae’r swyddog yn delio gydag anhwylderau’r disgyblion ac os bydd disgybl yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol, cysylltir â’r rhieni neu’r person cyswllt. Gofynnir i rieni roi gwybod yn ysgrifenedig os yw disgybl yn cymryd meddyginiaeth o fewn yr ysgol. Cedwir unrhyw feddyginiaeth sydd angen ar ddisgybl gan y Swyddog Iechyd a Lles.

## Y Gwasanaeth Cwnsela

Mae’r strwythur ar gyfer gofalu am les y disgyblion yn cael ei gydnabod fel un o gryfderau’r ysgol hon. Pwrpas y Gwasanaeth Cwnsela yw cefnogi gwaith yr athrawon dosbarth, y penaethiaid blwyddyn a’r Uwch Dîm Arwain. Gwneir hyn trwy gynnig cynhaliaeth bersonol i’r disgyblion hynny a fyddai’n elwa ar y cyfle i weithio gyda chwnselydd proffesiynol, sy’n annibynnol ar yr ysgol.

Mae’r Gwasanaeth Cwnsela yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol i'r disgyblion hynny sydd â materion cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol yn eu poeni. Nod y gwasanaeth yw galluogi’r disgyblion i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain a fydd yn caniatáu iddynt wneud newidiadau a fydd o les iddynt. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cymdeithasol ac academaidd a gynigir gan yr ysgol.

Mae gan ddau gwnselydd yr ysgol gymwysterau proffesiynol mewn Cwnsela, ac maent yn perthyn i gorff cwnsela proffesiynol. Maent yn bresennol yn yr ysgol ddeuddydd yr wythnos a medrir gwneud apwyntiad drwy Swyddog Iechyd a Lles yr ysgol. Goruchwylir y gwasanaeth cwnsela yn y modd arferol ac fe'i gwerthusir yn rheolaidd.

## Nyrs Iechyd yr Ysgol

Mae gan yr ysgol nyrs iechyd sy’n cael ei chyflogi gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd. Mae’r nyrs yn cynnal sesiynau galw i mewn i ddisgyblion ar un diwrnod yr wythnos. Mae’n bosibl hefyd i wneud apwyntiad i weld y nyrs drwy Swyddog Iechyd a Lles yr ysgol.

## Y Gwasanaeth Mentora

Yn flynyddol mae criw o fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn cael eu hyfforddi gan yr ysgol i gefnogi cyfoedion. Mae’r disgyblion yn cydweithio gydag aelodau ifancaf yr ysgol i hwyluso eu bywyd yn yr ysgol. Mae'r criw yma o ddisgyblion yn cefnogi'r gwaith a wneir gan y Cwnselydd Ysgol.

## Iechyd a Diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch (copi ar gael o'r ysgol) yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i’r disgyblion a’r staff fel ei gilydd.

## Y Cyngor Ysgol

Mae dau gynrychiolydd o bob blwyddyn ysgol ar y Cyngor Ysgol yn ogystal â’r Prif Swyddogion. Cynhelir etholiad bob mis Medi i ethol cynrychiolwyr newydd o flynyddoedd 7, 10 a 12.

Mae’r Cyngor yn cyfarfod bob pythefnos i drafod materion sydd yn berthnasol i holl ddisgyblion yr ysgol, yna trosglwyddir cofnodion y cyfarfodydd i’r Uwch Dîm Arwain er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o’r hyn a drafodwyd ac er mwyn i’r Cyngor dderbyn ymateb i’r pwyntiau a godwyd ganddynt.

# Ymarfer Corff a Chwaraeon

Er mwyn hybu iechyd a lles corfforol a meddyliol disgyblion, mae disgwyl i'r holl ddisgyblion fod yn gyfranogwyr gweithredol mewn gwersi chwaraeon a lle bo hynny'n bosibl ymuno â gweithgareddau allgyrsiol chwaraeon.

## Nodau Ymarfer Corff

- Darparu amgylchedd ddiogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol.
- Datblygu sgiliau corfforol.
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

## Adnoddau a Chyfleusterau

Mae gan yr ysgol:

- Neuadd Chwaraeon bwrpasol sydd yn cynnwys wal ddringo
- Ystafell ffitrwydd ar gyfer disgyblion hŷn
- Caeau a chyrtiau ar gyfer pêl-droed, rygbi, hoci, pêl-rwyd a tenis
- Adnoddau athletau a chriced

## Chwaraeon sydd ar gael

| | | |
|---|---|---|
| Rygbi<br>Pêl-droed<br>Athletau<br>Criced<br>Tenis<br>Gymnasteg<br>Pêl-law<br>Cyfeiriannu<br>Badminton | Aerobeg<br>Trawsgwlad<br>Pêl-rwyd<br>Dawns Greadigol<br>Rownderi<br>Gweithgareddau Awyr Agored<br>Hoci<br>Pêl-fasged<br>Pêl-foli | Rygbi cyffwrdd<br>Ymarfer Cylched<br>Ymarfer Pwysau<br>Dringo<br>Beicio Mynydd<br>Mynydda<br>Cwrs AYP<br>Gweithgareddau Actif Sir Gâr<br>Gwobr Dug Caeredin (Efydd) |

## Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn cynnal nifer o glybiau yn ystod yr awr ginio neu ar ôl ysgol. Cynhelir gemau cystadleuol yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol. Mae timau ysgol o bob oedran yn cystadlu yn gyson yn erbyn timau o ysgolion eraill a cheir cyfle i ddisgyblion gynrychioli rhanbarth Caerfyrddin, Brianne, Sir Gaerfyrddin, Dyfed a Chymru mewn amryw weithgareddau.

Mae'r ysgol yn cynnig Gwobr Dug Caeredin ar Lefel Efydd ac mae cyfle i ddisgyblion hŷn arwain a hyfforddi y disgyblion iau.

Mae disgyblion Chweched Dosbarth yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi addas ar gyfer gweithgareddau penodol. Maent hefyd yn cael y cyfle i gynorthwyo gyda gweithgareddau chwaraeon yr Urdd ac Actif Sir Gâr.

# Ymddygiad a Phresenoldeb

## Ymddygiad

Disgwylir i ddisgyblion gynnal safon uchel o ymddygiad yn yr ysgol er mwyn sicrhau trefn ddyddiol a lles cyd-ddisgyblion. Mae rheolau ymddygiad yn seiliedig ar syniadau canolog hunanddisgyblaeth, hunan-barch a pharch unigolion eraill. Trafodir y rheolau mewn gwersi ABCh a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio.

Cynhelir safonau uchel o ymddygiad trwy weithredu system gadarn, deg a chlir o ddisgyblu disgyblion nad ydynt yn cydymffurfio. Gan amlaf mae disgyblion yn ymateb yn bositif ond os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson yna hysbysir y rhieni. Mewn achosion arbennig, gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â'r Polisi Hybu Ymddygiad Cadarnhaol. Mae croeso i rieni gysylltu gydag ysgrifenyddes y Pennaeth er mwyn derbyn copi cyflawn o'r polisi hwn.

## Presenoldeb

Mae presenoldeb cyson yn yr ysgol yn bwysig iawn. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn agos ac yn dilyn camau gweithredu pendant ar gyfer datrys unrhyw broblemau. Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn trwy gysylltu gydag ysgrifenyddes y Pennaeth.

**Absenoldeb gyda chaniatâd:**

Mae'r ysgol yn caniatáu i ddisgybl fod yn absennol am gyfnod o amser oherwydd: salwch, profedigaethau teuluol, cynrychioli eu gwlad mewn campau, cyfweliadau a dyddiau gŵyl grefyddol. Disgwylir bod apwyntiadau cyffredin yn cael eu gwneud y tu allan i oriau ysgol.

**Absenoldeb heb ganiatâd:**

Fel arfer nid yw'r ysgol yn barod i ganiatáu absenoldeb disgybl am y rhesymau canlynol:

- apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol (onibai eu bod yn argyfwng neu'n rhan o driniaeth hir dymor);
- cynorthwyo gyda gwaith yn y cartref;
- adloniant, siopa neu weithgareddau hamdden;
- ymweliadau preifat yn ystod oriau ysgol;
- cyrraedd yn hwyr i'r ysgol heb reswm dilys.

**Gwyliau blynyddol teulu:**

Yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyngor Sir ni fydd yr ysgol yn rhoi caniatâd i rieni, yn ystod y tymor, i dynnu disgybl allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol oni bai bod presenoldeb y plentyn yn uchel.

**Nodyn Absenoldeb:**

Gofynnir am nodyn gan rieni i esbonio absenoldeb ar y diwrnod cyntaf yn ôl i'r ysgol. Gwerthfawrogir galwad ffôn i'r ysgol os yw'r disgybl yn debygol o fod yn absennol am gyfnod.

## Gadael Ffiniau'r Ysgol

Disgwylir i ddisgyblion Bl.7-12 gadw o fewn ffiniau'r ysgol yn ystod oriau ysgol oni cheir llythyr oddi wrth riant neu gerdyn apwyntiad swyddogol yn gofyn am ganiatâd i ddisgybl ymweld â chlinig, deintydd, optegydd ac yn y blaen. Anogir rhieni i beidio â threfnu apwyntiadau meddygol oni bai eu bod yn argyfwng neu'n rhan o driniaeth hir dymor. Rhaid gweld aelod o'r Uwch Dîm Arwain er mwyn arwyddo llythyr a hysbysu'r swyddfa cyn gadael y safle.



# Trefniadau o Ddydd i Ddydd

## Polisi Codi a Dileu Tâl

Ar hyn o bryd nid yw'r ysgol yn codi tâl ar gyfer:

- sefyll arholiadau allanol am y tro cyntaf, ond mae tâl yn ddyledus ar gyfer sefyll arholiad allanol am yr ail dro.

Mae polisi gan yr ysgol sy'n caniatáu codi tâl ar gyfer:

- teithiau dewisol, lle nad yw'r daith yn rhan angenrheidiol o gwrs addysgol y disgybl
- cyfrifianellau ac ati
- gwersi offerynnol a llais

## Y Drefn Cwyno

Yn unol â gofynion Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae'r Awdurdod Addysg wedi sefydlu trefniadaeth sy'n cynnig camau ffurfiol i rieni ac eraill i'w dilyn i ddelio â chwynion am gwricwlwm yr ysgol. Mae'r Awdurdod Addysg hefyd wedi sefydlu trefniadaeth i ddelio â chwynion yn erbyn athrawon.

Mae copïau o'r dogfennau hyn i'w cael ar gais trwy lythyr at y Pennaeth, neu'r Adran Addysg, Parc Dewi Sant.

## Trefniadau Tywydd Garw

Gwneir pob ymdrech i hysbysu rhieni mewn da bryd os bydd yr ysgol yn gorfod cau oherwydd tywydd garw. Yn dilyn tywydd garw dros nos, bydd yr wybodaeth o gau yr ysgol ar y wefan, ar ein cyfrif Twitter neu Facebook. Gellir cael gwybodaeth hefyd o'r Adran Trafnidiaeth Ysgolion (01267 234 567).

Gwneir pob ymdrech hefyd i gysylltu â rhieni pan fo'r ysgol yn cau yn gynnar oherwydd tywydd garw yn ystod y dydd. Bydd y Pennaeth yn derbyn cyngor oddi wrth swyddogion trafnidiaeth yr awdurdod pan fo hyn yn debygol o ddigwydd.





# Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae Bro Myrddin yn ysgol brysur sy'n llawn bwrlwm a chynigir amrywiaeth eang o weithgareddau o fewn yr ysgol, gyda drama, siarad cyhoeddus, adrodd a cherddoriaeth yn chwarae rhan bwysig. Mae'r ysgol yn cefnogi holl weithgareddau Urdd Gobaith Cymru, ac anogir disgyblion i ymaelodi â'r mudiad hwn. Disgwylir i'r disgyblion roddi blaenoriaeth i'r ysgol mewn gweithgareddau allgyrsiol. Rhoddir cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn dramâu Cymraeg a Saesneg, rhaglenni ysgafn, gwasanaethau, corau a grwpiau offerynnol.

## Clybiau

Cynhelir nifer o glybiau yn ystod y dydd gan gynnwys:
Gwobr Dug Caeredin
Clybiau chwaraeon amrywiol
Clwb Drama
Clwb D.T
Clwb Celf
Pwyllgor Y Chweched Dosbarth
Pwyllgor Dyngarol
Pwyllgor Eco
Pwyllgor Gwasanaeth
Ymarferion Côr a Cherddorfa
Clwb STEM
Yn ogystal, cynhelir gweithgareddau amrywiol i baratoi ar gyfer cystadlaethau'r Urdd a pherfformiadau cyhoeddus

## Gwersi Offerynnol

Trefnir gwersi offerynnol dan arweiniad athrawon peripatetig ar gyfer: telyn, offerynnau llinynnol, offerynnau chwythbren a phres, gitâr, offerynnau taro a llais. Mae'n ofynnol i'r rhieni wneud cyfraniad ariannol tuag at y gwersi offerynnol, ond fe fydd yr ysgol yn ysgwyddo gweddill y gost. Ceir manylion pellach gan yr ysgol. Disgwylir i rieni dalu am lyfrau arbenigol ac am sefyll arholiadau'r Bwrdd Arholi Brenhinol. Anogir disgyblion sydd yn derbyn gwersi offerynnol i fynychu ymarferion band neu gerddorfa yn yr ysgol a hefyd i gefnogi ensembles sirol.

## Gwaith Dyngarol

Rhoddwyd cymorth gwirfoddol i nifer helaeth o fudiadau yn ystod y flwyddyn gan fyfyrwyr Blwyddyn 12.
Yn ychwanegol i wirfoddoli mae disgyblion o Flwyddyn 12 yn trefnu gweithgareddau i godi arian ar gyfer achosion da. Mae'r arian a godwyd yn y digwyddiadau hyn, a drefnwyd ac a gefnogwyd gan ddisgyblion a staff yr ysgol, yn cael ei roi i amrywiaeth o elusennau lleol a chenedlaethol.

# Campau Disgyblion

Yn flynyddol mae nifer fawr o ddisgyblion yn cael y gyfle i gynrychioli'r ysgol yn y gweithgareddau allgyrsiol canlynol:
Côr y Sir
Perfformiadau yn y Gymuned
Côr Ieuenctid Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cerddorfa'r Sir
Cerddorfa Ieuenctid Cymru
Cerddorfa Genedlaethol Plant Prydain Fawr
Band Pres y Sir
Band Chwyth y Sir
Cerddorfa'r Chwe Sir
Band Mawr y Chwe Sir
Band Pres y Chwe Sir
Côr y Chwe Sir
Cystadleuaeth Offerynwyr Ifanc Dyfed
Cystadleuaeth Cyfansoddwr Ifanc Dyfed
Theatr Ieuenctid yr Urdd
Theatr Ieuenctid Genedlaethol

Yn ogystal, gwelwyd cynrychiolaeth o'r ysgol ymhob un o'r canlynol:

**Athletau dan-do**
Sir Gaerfyrddin
Pencampwriaeth Cymru
Pencampwriaeth Prydain

**Athletau**
Brianne
Pencampwriaeth Dyfed
Pencampwriaeth Cymru
Pencampwriaeth Ryngwladol

**Cwpan Athletau Ysgolion Cymru**
Brianne
Dyfed
Cymru

**Criced**
Cystadleuaeth Sir dan 12 ac 14

**Hoci**
Tîm Dyfed dan 15 ac 18 oed
Cynghrair Sir Gaerfyrddin

**Pêl-rwyd**
Tîm De Brianne
Tîm Brianne, Hwb Gorllewin Cymru

**Rygbi – Cynghrair Sir Gaerfyrddin**
Tîm Rhanbarth Caerfyrddin dan 15
Tîm dan 16 Sgarlets
Academi dan 16/18 Sgarlets
Cynghrair Ysgolion Cymru
Cwpan Cymru dan 14, 16 ac 18
*Rygbi 7 bob ochr yr Urdd a* Rosslyn Park
Rygbi Merched

**Pêl-droed**
Cwpan Dyfed - tîm bechgyn dan 13/14/15/18
Pêl-droed Merched dan 13/15 a Chwpan Cymru i enillwyr

**Trawsgwlad**
Cynghrair Sir Gaerfyrddin
Pencampwriaeth Dyfed
Pencampwriaeth Ysgolion Cymru

**Gymnasteg**
Pencampwriaeth Brianne, Dyfed
Pencampwriaeth Cymru
Eisteddfod yr Urdd

**Nofio**
Pencampwriaeth Yr Urdd – Ardal Myrddin a Chymru

**Sgio**
Pencampwriaeth Agored Cymru/ Gorllewin Cymru

**Trampolino**
Pencampwriaeth Agored Cymru

**Gweithgareddau Awyr Agored**
Gwobr Dug Caeredin – Efydd
Taith Sgio
Mynydda
Wal Ddringo'r Ysgol
Beicio Mynydd – trac sgiliau ar safle'r ysgol
Beicio Mynydd – Brechfa

**Golff**
Pencampwriaeth Ysgolion Dyfed



# Y Gymdeithas Rhieni

Mae'r Gymdeithas Rieni yn bodoli i feithrin cyfeillgarwch ymhlith rhieni i godi arian er lles yr ysgol.

Dros gyfnod o flwyddyn mae'r pwyllgor yn trosglwyddo swm sylweddol o arian i'r ysgol er mwyn cynorthwyo yr ysgol gyda datblygiadau arbennig. Er mwyn codi'r arian hyn mae'r gymdeithas yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau megis noson gyri, noson harddwch, ffair grefftau ac ati.

Bwriad y pwyllgor eleni yw codi gymaint o arian â phosibl eto. Mae gennym rai cynlluniau ond os oes gan rai ohonoch syniadau neu yn medru gwirfoddoli rhowch alwad i ysgrifenyddes y Pennaeth er mwyn cael mwy o wybodaeth a chyswllt gyda swyddogion y pwyllgor.

Ar hyn o bryd rydym yn cysylltu â rhieni trwy negeseuon testun, Facebook, Twitter, Instagram a ParentPay.

Ffordd hawdd iawn o godi arian i ni yw 'Y Clwb 500'. Mae pob teulu yn gallu ymuno am £12 y flwyddyn. Yn fisol ceir tair gwobr a'r rhifau lwcus fydd yn ennill. Bydd ffurflen yn cael ei danfon atoch trwy ParentPay er mwyn i chi fedru ymaelodi am y flwyddyn.

Mae'r Gymdeithas Rieni yma er lles ein hieuenctid ni. Mae pob ceiniog a godwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei wario ar ein plant. Diolch am eich cefnogaeth i'r gweithgareddau eleni ac rwy'n hollol hyderus y bydd llwyddiant ysgubol yr ysgol yn parhau.








# Staffio Ysgol

**Pennaeth**
Dr Llinos Jones
**Dirprwy Bennaeth**
Mr Euryn Madoc Jones
**Penaethiaid Cynorthwyol**
Mrs Rhian Carruthers, Mr Steffan Davies,
Mrs Eirlys Thomas
**Pennaeth Blwyddyn 7**
Mrs Tracy Jenkins
**Pennaeth Blwyddyn 8 / 9**
Mr Chris Lacey, Miss Elin Jones
**Pennaeth Blwyddyn 10 / 11**
Mr Gareth Jones, Mrs Lowri Davies
**Pennaeth Chweched Dosbarth**
Mr Tim Hayes
**Is-Bennaeth Chweched Dosbarth**
Mrs Alwen Owen
**Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Mr Dyfed James
**Cyd-gysylltydd Gyrfau a Byd Gwaith**
Mrs Eirlys Thomas
**Arweinwyr Pwnc a Chyfadrannau**
Mrs Kathryn Richards, Mr Robyn Davies
Mr Tim Hayes, Mr John Norgrove
Mr Gari Thomas, Mrs Helen Evans
Miss Claire Russell, Miss Catrin Pritchard
Mrs Bethan Hubbard, Mrs Luned Davies
Mrs Gwenan Morgans, Mrs Llinos M Jones
Miss Leony Hall, Mrs Meinir Richards
Mrs Lowri Davies, Mr Christopher Lacey
Mr Gareth Jones, Mr Alun Thomas
Miss Elin Jones
**Athrawon Cynorthwyol**
Mrs Nerys Blue, Mr Aled Williams
Mrs Kathy Davies, Mrs Lowri Rees
Mr Emyr Rees, Mrs Non Knott
Mrs Hannah John, Mrs Sian Roberts-Jones
Mrs Llinos Williams, Miss Rhian Evans
Miss Sian Davies, Miss Ffion Page
Mrs Judith Al-Rawazik, Mrs Nia Carrick
Mr Adrian Williams, Mr Rhys Jones
Mrs Nia Evans, Mrs Nia Eynon
Mr Wayne O'Leary, Miss Fflur Davies
Mrs Meinir Wyn Davies, Mr Wyn Mainwaring
Mrs Melanie Rees, Miss Fflur Rhys
Mr Jac Davies, Mr Carwyn Evans
Mr Steffan Rhys Davies, Mrs Sioned Williams

**Staff Cynorthwyol a Gweinyddol**
**Bwrsar**
Mrs Eleri MacRae
**Bwrsar Cynorthwyol**
Mrs Cathy Jones
**Ysgrifenyddes yr Uwch Dîm Arwain**
Miss Siân Thomas
**Rheolwraig Data a Swyddog Arholiadau**
Mrs Meinir McLellan
**Rheolwr Rhwydwaith**
Mr Robert Gibbard
**Derbynnydd**
Mrs Glesni Davies
**Llyfrgellydd / Cynorthwyydd Cyffredinol**
Mrs Ina Evans
**Gwarchodwyr Gwersi**
Mrs Melanie Rees, Mr Fabio Lewis
**Swyddog Cynhwysiant,**
Mrs Dolan Williams,
**Swyddog Iechyd a Lles**
Miss Eiri Thomas
**Cynorthwywdd Gweinyddol ADY**
Mrs Julie Griffiths
**Cynorthwywyr Cynnal Dysgu**
Mrs Karen John, Mrs Lisa Thomas
Miss Anona Williams, Miss Ceri Griffiths,
Miss Kelly Jones, Miss Sonia Jones
Miss Cerys Davies, Miss Cara Baker
Mr Iestyn Phillips, Mr Darren Evans
**Swyddog Ieuenctid**
Miss Catrin Griffiths
**Cwnselyddion**
Mrs Zena Cooper, Mrs Emma Evans
**Technegydd**
Mrs Lonwen Bowen
**Gofalwr**
Mr Wayne Nicholas, Mr Garin Bennett

